



**YSGOL
LLANFYLLIN**

Gorffennaf 13eg, 2021

Annwyl Rieni a Gofalwyr,

Wrth i ni nesáu at ddiwedd y tymor, hoffwn i fanteisio ar y cyfle i fynegi pa mor falch ydw i i fod yn Bennaeth Ysgol Llanfyllin. Serch y ffaith ein bod fel ysgol a chymuned wedi wynebu un o'r blynyddoedd academaidd mwyaf anodd i mi ei chofio erioed yn ystod fy 22 mlynedd ym myd addysg, mae ymateb y disgyblion, eu teuluoedd a'n staff wedi bod yn rhagorol. Fedrwn i ddim bod yn fwy balch o bob un ohonoch chi a diolch yn fawr am eich cefnogaeth parhaus a'r cryfder rydych chi wedi'i ddangos yn ystod y flwyddyn hynod heriol hon.

Gwisg Ysgol o fis Medi ymlaen

Bydd disgwyl i bob disgybl wisgo gwisg ysgol lawn Ysgol Llanfyllin pan fyddan nhw'n dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi. Gellir dod o hyd i fanylion ynglŷn â'n disgwyliadau yn ein polisi gwisg ysgol isod. Rydw i hefyd wedi cynnwys dolenni i'n cyflenwyr gwisg ysgol swyddogol. Peidiwch â phetruso i gysylltu â'r ysgol os ydych chi'n cael anhawster ynglŷn â'r wisg ysgol. Cefnogwch eich plentyn a'r ysgol trwy sicrhau bod y wisg ysgol gywir yn cael ei gwisgo ym mis Medi.

Uniform-Policy-2020-YLL.pdf (llanfyllin.powys.sch.uk)
Constructive Clothing - <http://www.constructiv.co.uk/>
School Shop Direct - <https://schoolshopdirect.co.uk/>

Datblygiad newydd y Cyfnod Cynradd

Ym mis Medi bydd ein disgyblion ieuengaf (Cyfnod Sylfaen i Flwyddyn 6) yn symud i gyfnod cynradd newydd yr ysgol. Mae hwn yn ddatblygiad cyffrous iawn a chawn weld ein plant yn manteisio ar gyfleusterau gwell fel y maes chwarae newydd, dosbarth awyr agored, labordy gwyddoniaeth, ystafelloedd TG a defnydd o ystafelloedd arbenigol eraill fel yr ystafell gerddoriaeth, y gampfa a'r ystafelloedd technoleg. Byddwn yn ysgrifennu at rieni'r cyfnod sylfaen ar wahân gyda mwy o fanylder ynglŷn â threfniadau eraill fel manylion gollwng a chasglu ac yn y blaen. Fel arheg i'w croesawu bydd pob disgybl ym mlynnyddoedd 3, 4, 5 a 6 yn derbyn gliniadur Chromebook ar gyfer eu defnydd eu hunain yn yr ysgol. (DS. Eiddo'r ysgol fydd y gliniaduron yn dal i fod a bydd disgwyl iddyn nhw gael eu dychwelyd pan fydd y disgyblion yn gadael y cyfnod cynradd ar ddiwedd Blwyddyn 6.)

Link: Digwyddiad Byw Cyfnod Cynradd / Primary Phase Live Event - 15/04/21

<https://youtu.be/N0hbIFW3Q1w>

Cysylltwch / Contact

Llanfyllin, Powys SY22 5BJ
Ffôn / Telephone: (01691) 648391
office@llanfyllin.powys.sch.uk
www.llanfyllin.powys.sch.uk

Tim Arweinyddiaeth / Leadership Team

Pennaeth / Headteacher:
Mr Dewi Owen
Dirprwy Bennaeth / Deputy Headteacher:
Mr Llŷr Thomas

Penaethiaid Cynorthwyl /

Assistant Headteachers

Mr Huw Lloyd-Jones
Mrs Ann Roberts
Mrs Sioned Vaughan

Rheolwr Busnes/Business Manager

Mrs Sarah Hunter
CADY/ALNCO
Mrs Rhiannon Molyneux



**YSGOL
LLANFYLLIN**

Canolfan Chweched Dosbarth newydd

Fe fydd adeilad yr hen ysgol gynradd yn cael ei drawsnewid dros wyliau'r haf yn ganolfan chweched dosbarth newydd i ni. Fe fydd y ganolfan yn cynnwys caffi newydd ('Caffi Cain'), ystafell gyffredin, ardaloedd astudio, ystafelloedd dosbarth, ystafelloedd astudio unigol, ystafelloedd ESGOL, manau parcio i fyfyrwyr a swyddfeydd cymorth i fyfyrwyr. Fe fydd y ganolfan yn cael ei staffio gan Mrs Kim Evans (Pennaeth y 6ed Dosbarth) a Mrs Beth McDonald (Anogwr Dysgu).

Bydd disgyblion yn derbyn rhai gwersi yn y ganolfan yn ogystal. Fe fyddwn yn parhau i gydweithio â dosbarthiadau chweched dosbarth eraill Powys i sicrhau cwricwlwm eang a chytbwys o ansawdd uchel ar gyfer pob un o'n dysgwyr.

Link: 6th Form Live Event / Cofnodi Digwyddiad Byw 6ed Dosbarth - 04/02/21

<https://youtu.be/hlfx3K700o>

Ysgol Covid-ddiogel – Medi 2021

Mae Llywodraeth Cymru wedi diweddarau ei chanllawiau gweithredol ar gyfer ysgolion, a hwn sydd yn darparu sail ar gyfer y trefniadau a fydd yn cael eu rhoi ar waith. Pan ddaw'r disgyblion yn ôl i'r ysgol ym mis Medi ein bwriad ydy cadw at y rheolaethau sydd gennym ar waith ar hyn o bryd, gyda mân newidiadau yn unig. Fe fydd y trefniadau hyn ar waith i leihau nifer y cysylltiadau yn yr ysgol ac yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch y disgyblion a'r staff. Fe fydd cyflwyniad ar gael ar wefan yr ysgol yn ddiweddarach ym mis Awst i atgoffa rhieni a disgyblion o'r trefniadau hyn, ond i grynhoi:

- Bydd trafniadaeth ysgol yn rhedeg fel arfer. Fe fydd disgyblion hŷn (Blwyddyn 7 a hŷn) yn parhau i wisgo gorchuddion wyneb ar gludiant ysgol, ac fe fyddan nhw'n derbyn pas bws newydd a fydd yn cynnwys cod QR er mwyn sicrhau bod disgyblion yn defnyddio'r cludiant cywir wedi'i ddarparu gan Gyngor Sir Powys.
- Fe fydd athrawon yn eu hystafelloedd arferol, gan ganiatáu i ddisgyblion gael mynediad i'r cwricwlwm llawn a meysydd dysgu arbenigol. Fe fydd amserlenni newydd yn cael eu dosbarthu ym mis Medi.
- Fe fydd disgyblion Cyfnod Uwchradd yn dechrau defnyddio'r ystafelloedd newid ar gyfer Ymarfer Corff felly ni fydd angen iddyn nhw ddod i'r ysgol yn eu dillad ymarfer corff ar ddiwrnod eu gwern Ymarfer Corff. Dylai disgyblion Cyfnod Cynradd ddod i'r ysgol yn eu dillad ymarfer corff ar y diwrnod penodedig.
- Fe fydd pellter cymdeithasol yn dal i gael ei gynnal rhwng staff a disgyblion, a chyn belled â phosibl rhwng disgyblion. Fe fydd cadeiriau'r ystafelloedd dosbarth yn cael eu trefnu i osgoi cyfathrebu wyneb yn wyneb rhwng disgyblion.
- Bydd anogaeth i barhau â hylendid y dwylo.

Cysylltwch / Contact

Llanfyllin, Powys SY22 5BJ

Ffôn / Telephone: (01691) 648391

office@llanfyllin.powys.sch.uk

www.llanfyllin.powys.sch.uk

Tim Arweinyddiaeth / Leadership Team

Pennaeth / Headteacher:

Mr Dewi Owen

Dirprwy Bennaeth / Deputy Headteacher:

Mr Llŷr Thomas

Penaethiaid Cynorthwyl /

Assistant Headteachers

Mr Huw Lloyd-Jones

Mrs Ann Roberts

Mrs Sioned Vaughan

Rheolwr Busnes/Business Manager

Mrs Sarah Hunter

CADY/ALNCO

Mrs Rhiannon Molyneux



- Fe fydd lefel yr awyru yn adeilad yr ysgol yn parhau i fod yn uwch.
- Fe fydd ardaloedd tu allan penodol i grwpiau blwyddyn ar gyfer amser egwyl ac amser cinio.
- Fe fydd angen i'r disgyblion wneud yn siŵr eu bod yn gwisgo'n addas ar gyfer y tywydd (eli haul, côt, ambarél, ac ati). Os nad ydy'r tywydd yn ofnadwy o arw, fe fydd disgyblion yn cael eu hannog i fod tu allan yn ystod yr egwyl ac amser cinio.
- Fe fydd bwyd yn cael ei weini amser egwyl ac amser cinio ar amseroedd gwahanol o wahanol leoliadau. Fe fydd ardal penodedig ar gyfer pob grŵp blwyddyn ar gyfer prynu a bwyta cinio. Fel dewis arall, gall y disgyblion ddod â pheccyn cinio os ydy hi'n well ganddyn nhw.
- Mae'n rhaid i ddisgyblion ddod i'r ysgol yn drefnus ac yn barod ar gyfer y dydd, gan gynnwys bod â'u deunyddiau ysgrifennu a digon o ddiod i'w yfed trwy gydol y dydd.
- Fe fydd cyfleusterau toiled penodol wedi'u neilltuo i grwpiau blwyddyn arbennig.
- Fe fydd Microsoft Teams yn cael ei ddefnyddio eto i gefnogi dysgu ac asesu trwy'r ysgol gyfan. Fe fydd Teams hefyd yn cael ei ddefnyddio i hwyluso gwaith cartref.
- Fe fydd ardaloedd ynysu yn parhau i fod ar gael i ddisgyblion sy'n datblygu symptomau Covid yn ystod diwrnod ysgol. Fe fydd angen i rieni gasglu'r disgyblion hyn ar unwaith.
- Fe fydd clybiau ysgol, y rhaglen chwaraeon, digwyddiadau a thripiâu yn gweithredu i ddechrau ar lefel gyfyngedig.
- Unwaith eto ni fydd yn bosibl cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn yr ysgol ar hyn o bryd. Cysylltwch â'r ysgol os ydych chi'n dymuno trafod unrhyw beth ac fe fyddwn ni'n trefnu cyfarfod rhithiol os oes angen. Peidiwch os gwelwch yn dda â mynd i dderbynfa'r ysgol os nad yw'n gwbl angenrheidiol.
- Os ydy'ch plentyn yn teimlo'n sâl peidiwch â'u hanfon nhw i'r ysgol. Os ydy eich plentyn neu unrhyw aelod o'ch cartref yn datblygu symptomau Covid, neu'n profi'n positif am Covid, mae'n rhaid i chi hunan-ynysu a threfnu prawf Covid-19 PCR.
- Dylid rhoi gwybod am achosion positif o Covid yn uniongyrchol i system Tracio ac Orlhain y GIG dros gyfnod yr haf. Pan fyddwch yn dychwelyd i'r ysgol cofiwch roi gwybod i ni am unrhyw achosion sydd wedi'u cadarnhau trwy e-bost i office@llanfyllin.powys.sch.uk
- Ni fydd disgwyl i ddisgyblion barhau â'r prawf llif unffordd dros gyfnod yr haf, ond dylai'r rhai sydd wedi dewis ymuno ail-ddechrau cymryd y prawf pan fyddan nhw'n dychwelyd i'r ysgol.

Gorchuddion Wyneb

Byddwch yn ymwybodol os gwelwch yn dda na fydd angen i ddisgyblion na staff wisgo gorchuddion wyneb yn gyffredinol yn yr ystafelloedd dosbarth, ond rydyn ni'n ei annog mewn ardaloedd cymunol fel y coridorau lle mae'n debygol y bydd mwy o gymysgu cymdeithasol. Os ydy disgyblion neu staff yn dewis gwisgo gorchuddion wyneb am resymau personol, fe fydd hyn yn cael ei ganiatáu.

Cysylltwch / Contact

Llanfyllin, Powys SY22 5BJ

Ffôn / Telephone: (01691) 648391

office@llanfyllin.powys.sch.uk

www.llanfyllin.powys.sch.uk

Tim Arweinyddiaeth / Leadership Team

Pennaeth / Headteacher:

Mr Dewi Owen

Dirprwy Bennaeth / Deputy Headteacher:

Mr Llŷr Thomas

Penaethiaid Cynorthwyl /

Assistant Headteachers

Mr Huw Lloyd-Jones

Mrs Ann Roberts

Mrs Sioned Vaughan

Rheolwr Busnes/Business Manager

Mrs Sarah Hunter

CADY/ALNCO

Mrs Rhiannon Molyneux



**YSGOL
LLANFYLLIN**

Yn olaf...

Fe fyddwch chi'n ymwybodol bod y sefyllfa'n un sy'n newid yn gyflym a bydd angen i ni fod yn hyblyg yn ein hagwedd at fywyd ysgol yn y flwyddyn nesaf. Mae'n bosibl y bydd newidiadau i'r canllawiau lleol neu genedlaethol yn sgil y raddfa heintio, yn cael effaith ar ein gweithrediadau. Fe ysgrifennaf atoch dros yr haf os oes yna unrhyw newidiadau sylweddol sy'n golygu y bydd y trefniadau hyn am fod yn wahanol.

Edrychaf ymlaen at groesawu'ch plentyn yn ôl i'r ysgol ar ddydd Iau 2il o Fedi.

Mwynhewch seibiant diogel, ymlaciol a hapus dros yr haf.

Diolch

Mr Dewi Owen
Pennaeth

Cysylltwch / Contact

Llanfyllin, Powys SY22 5BJ
Ffôn / Telephone: (01691) 648391
office@llanfyllin.powys.sch.uk
www.llanfyllin.powys.sch.uk

Tim Arweinyddiaeth / Leadership Team

Pennaeth / Headteacher:
Mr Dewi Owen
Dirprwy Bennaeth / Deputy Headteacher:
Mr Llŷr Thomas

**Penaethiaid Cynorthwyl /
Assistant Headteachers**

Mr Huw Lloyd-Jones
Mrs Ann Roberts
Mrs Sioned Vaughan

Rheolwr Busnes/Business Manager

Mrs Sarah Hunter
CADY/ALNCO
Mrs Rhiannon Molyneux